YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'
CYF. 44. RHIF 1 MEHEFIN 2022 50c

# Bedyddio Efa a Dathlu Camp Cathryn



**John, Sara ac Efa Rebecca Fielding wedi'r Bedydd yn Eglwys Sant Pedr, Woolton dydd Sul, Ebrill 24ain, 2022**



**Yn rhifyn Mawrth fe soniais fod un o aelodau Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw, Rosamande Turton, yn edrych ymlaen at fynd i Gastell Windsor gyda'i merch, Cathryn, oedd yn mynd i dderbyn yr O.B.E. am y gwaith arbennig a wnaeth wrth weithio yn Zimbabwe - yn Saesneg *"For services for humanitarion relief and international development"*. Dyma lun o Cathryn yn dal y fedal.**

## YN Y RHIFYN HWN

**Golygyddol: Anturiaeth y Cymry i Asia Bell,
Newyddion Seion, Bethel, Bethania, Cymry Birkenhead a Cymdeithas Cymry Lerpwl.
Cyflwyno Islwyn Ffowc Elis. Cystadleuaeth i'r plant a'r ifanc a'r oedolion.
Heddychwyr Dyffryn Clwyd. Ysgrifau coffa – Megan Vaughan, Elinor Parry a Shirley Hughes**

Golygyddol


# Anturiaeth y Cymry i Asia Bell
## – gan D. Ben Rees

**Anodd meddwl am ddim byd arall y dyddiau hyn na meddwl am yr hyn sy'n digwydd yn Wcrain a bod Rwsia yn amharchu eu cymdogion a hynny heb reswm yn y byd. Dyna pam fod angen pwyso ar arweinwyr y Gorllewin i ddefnyddio pob peth posibl i ddod a'r gyflafan i ben mor fuan ag y bo modd. Nid anfon rhagor o arfau yw'r atebiad ond defnyddio ei gallu i berswadio Putin a'i Politburo i gymrodeddu a chymodi er mwyn lleihau y colledion.**

Yng nghanol y cyffroadau a'r creulondeb byddaf yn cofio yn gyson am antur ffydd y Cymry hynny a adawodd gysuron y byd Gorllewinol a dilyn ei gweledigaeth o Gristnogaeth i bendraw'r byd. Diolchwn am bob hanestyn a stori sydd gennym gan ein bod ni yn byw ar hynny. Meddylier am y rhai a adawodd eu hanwyliaid, ei rhieni, eu teuluoedd, a mentro yn enw'r Efengyl Gristnogol pan olygai hynny beryglon, gwrthwynebiad, erledigaeth a chasineb. Dywedwn yn dda amdanynt, a nodaf y rhain y tro hwn.

Am **John Davies** o Lanfihangel-yng-Ngwynfa a ddaeth yn athro ysgol yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant ym Maldwyn. Ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd a dod yn aelod o'r un seiat â John Hughes, Pontrobert (1775-1854), a'r ferch ryfeddol o ysbrydol, Ann Griffiths, Dolwar Fach. Anfonodd Cymdeithas Cenhadol Llundain y gŵr ifanc 28 oed yn 1800 i Ynys Tahiti ym Môr y De lle y bu am dros hanner canrif di-dor fel cenhadwr ymroddedig. Defnyddiodd y gallu a feddai fel pregethwr, emynydd, cyfieithydd, gramadegydd ac athro penderfynol. Bu mewn cysylltiad agos ar hyd ei oes gyda John Hughes, ac ef fu yn cyflwyno ei anturiaethau yn Ynysoedd Môr y De. Derbyniodd y cynulleidfaoedd ym Maldwyn a glywodd hanes John Davies lawer o gysur o wybod am ei lwyddiant yn ennill Ynys Tahiti i Gristnogaeth.

Y nesaf o'r anturiaethwyr yw **Griffith John** (1831-1912) a wnaeth waith enfawr yn China. I Fadagasgar lle bu'r Parchedig Eleri Edwards y bwriadodd yr Annibynwyr ei anfon ef. Wedi'r cyfan yr oedd yn briod â Jane, merch David Griffiths (1792-1863), Madagascar. Ond yn 1855, teithiodd Griffith John i




***Griffith John***

China. Ei ganolfan o 1855 hyd 1911 oedd Hankow ond bu'n brysur yn teithio i bob man a medrai gan sefydlu ysgolion, eglwysi, cartref ar gyfer gwahangleifion a choleg diwinyddol. Ysgrifenwyd ei stori yn fanwl gan y Parchedig Noel Gibbard, a chwith oedd darllen ysgrif goffa iddo eleni yn y cylchgrawn *Barn*. Ond canolbwynt y cyfan i Griffith John oedd pregethu'r efengyl sydd yn adeiladu cymeriadau cymeradwy. Ymddangosodd ei Destament Newydd Wen-li yn 1855, a'i fersiwn Mandarin yn 1889. Mae gan China ddyled enfawr i'r Cymro hwn a ddychwelodd o China yn 1911 a chyrraedd Llundain. Yno y bu farw ond fe'i claddwyd yn Sgeti, Abertawe.

Y trydydd a gofiaf yw **Timothy Richard** (1845-1919) a China fu ei faes yntau. Gŵr o gefn gwlad Sir Gaerfyrddin. Dyma'r cenhadwr mwyaf dawnus mae'n debyg o holl genhadon a welodd Cymru. Ganed ef yn Ffaldybrenin, pentref tlws yn fy ngolwg ac fe'i hanfonwyd gan Gymdeithas Cenhadol y Bedyddwyr i China yn 1869. Yno y llafuriodd am 46 mlynedd yn gyntaf yn Chafoo, yna yn Shantung a Shanss, ac yn olaf yn y dref brysur, boblog Shanghai. Daeth ei enw



***Timothy Richard***

Sineaidd *Li-T'i-mo-tai* yn enw cyfarwydd trwy y wlad fawr o ganlyniad i'w allu rhyfeddol fel athro eneiniedig, ysgolhaig medrus, awdur, gwladweinydd cenhadol, mandarin a chynghorydd i'r llys. **Yn wir am gyfnod bu Timothy Richard yn llywodraethu China, a gwyddom fod ganddo fwy o rym gwleidyddol na'r un Cymro a fu fyw erioed ar wahân i David Lloyd George, Aneurin Bevan a Jim Griffiths.**

Anrhydeddodd y Chineaid Timothy Richard trwy ei ethol ef yn aelod o Urdd y Ddau Ddwbl. Diolchwn am Timothy a wynebodd yr un sialens yn China neu Tsieina gan gyflawni gweithredoedd sy'n dal yn werthfawr a pherthnasol yn ein byd.

# Y TEITHIWR

Cefais dy eni'n estron imi,
Yn ddim ond un o'r rheini yng nghefn y bws
A lliw ein gruddiau'n sedd wag rhyngom

Ti a'th dylwyth yn anweledig imi-
Baw isa'r domen, gwehilion cymdeithas.
A minnau'n methu'n lân â deall
Pam dy fod mor wahanol i mi,
Pam nad oeddet ti gystal â mi

Ond daliaist dy dir drwy wrthod ildio dy sedd
A buan y doist ti wedyn i eistedd wrth f'ymyl.
Ac er mor dynn oedd cadwynau fy rhagfarnau
Treiddiodd y goleuni trwyddynt
A gwelais gyfoeth dy wahaniaeth
A harddwch dy amrywiaeth.

A gwres llethol Alabama'n pwyso arnat,
Nid teithiwr cyffredin mohonot,
Ond un a eisteddodd yn lle sefyll dros dy hawl.

Wrth deithio am adref heddiw
Ti'n dal i wrthod ildio dy sedd yn fy nghof
Pan glywaf  deithiwr arall yn rhegi dy hil
Yn poeri ar liw dy blant
A thithau'n fy ysbrydoli
I wneud be wnaethost ti,
Rosa, ydi'n bryd i minnau fod yn arwr, fel ti ?

*Cerdd o eiddo Lois Medi Wiliam, Bangor*



**ROSA PARKS**


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Dychrynwyd pawb ohonom pan ddaeth y newydd am aflwydd sydyn ein cyfaill gweithgar Gwyn Jones sydd mor gefnogol i ni fel eglwys. Trwy drugaredd llwyddodd y meddygon yn Ysbyty'r Galon yn Broadgreen ei wella a bellach y mae ef ar fin dychwelyd i'n plith.

Braf yw cael cyhoeddi fod un o'n haelodau anwylaf Mrs Sarah Davies wedi dathlu ei phen-blwydd yn gant oed ar 12 Ebrill. Aeth y Gweinidog a'n dymuniadau da ni fel eglwysi iddi ar drothwy'r dathlu. Caiff y gofal gorau gan ei merched. Da hefyd cael cydnabod llawenydd teulu o'n plith gyda'r ferch yn derbyn yr OBE am ei gwasanaeth yn Zimbabwe a cheir yr hanes yn y rhifyn hwn. Collwyd fel y soniwyd y tro o'r blaen ein chwaer annwyl Megan Vaughan a bu'r arwyl o dan ofal y Parchedig Robert Parry.

Diolchwn i'n gweinidog am ein harwain i Fwrdd yr Arglwydd ar ddechrau'r gwanwyn, ac i Dr. John G. Williams, Bethel am ei gyfraniad gwerthfawr ar Sul y Palmwydd. Da oedd cael croesawu y Parchedig Aneurin Owen, mab i genhadon, a fu yn affaeliad i'n hoedfa. Delfrydol oedd y ddarpariaeth o'i eiddo. Gan fod fy ngolwg yn gwaethygu nid yw'n hawdd paratoi y newyddion, ond gyda chydweithrediad ein Golygydd, bwriadaf ddal ati am rai rhifynnau eto o gyfrol 44 o'r *Angor*.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Roeddem fel eglwys yn falch fod y Parchedig Margaret Quayle, Crosby wedi cael ei gwahodd i deithio i Blas Windsor, i dderbyn o ddwylo y Tywysog Siarl yr hyn a elwir yn arian *Maundy Thursday*. Methodd y Frenhines a fod yn bresennol oherwydd pwysau'r blynyddoedd a dyna pam fod y Mab a ddaw ryw ddydd yn Frenin yn cyflawni'r weithred, ar ei rhan.



***Arian Maundy Thursday***

Edrychwn ymlaen i weld lluniau o'r digwyddiad unigryw i ni Cymry'r Glannau – Cyn-aelod o eglwys Waterloo yw ein chwaer.

Y mae y Parchedig Robert Parry yn cynnal ein hoedfaon a meddyliwn amdano ar ddechrau Mai pan gynhelir arwyl ei fam yn Neganwy a Llanelwy. Ni chawsom y fraint o'i chyfarfod gan iddi fod yn wan ar hyd y misoedd a aeth heibio ac yn derbyn pob gofal gan ei hanwyliaid. Cydymdeimlwn fel eglwys â hwy yn y dydd blin.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*"Mae Duw ag allwedd sidan*
*Yn agor y blagur eto*
*A phawb yn sôn am wanwyn*
*Wrth i'r Gaeaf fynd yn ei dro."*

J. Eirian Davies

Mae arwyddion y Gwanwyn yn ein gerddi ac ar gloddiau pridd, melyn y daffodil a'r briallu, ac edrychwn ymlaen i gael treulio mwy o amser yn yr awyr agored i fwynhau gogoniant y greadigaeth.

Er gwaetha' amgylchiadau digon anodd i fedru dod ynghyd ddechrau mis Ebrill, ond erbyn hyn mae'r rhagolygon yn llawer gwell a'r cleifion yn ein plith yn dal i wella.

Cawsom wasanaeth ar *zoom* fore Sul y Blodau, ac yna'r nos Lun dilynol darlith gan Dr. D. Ben Rees ar y testun *"Dau brotestant crefyddol, Wise a Longbottom"*. Dangoswyd sleidiau o'r ddau eithafwyr. Diddorol oedd gwrando ar hanes cyfnod anodd yn ninas Lerpwl. Diolch i Dr. D. Ben Rees am ddarparu ar ein cyfer ni.

Mawr yw ein cydymdeimlad â'n gweinidog y Parch. Robert Parry a'i deulu oll. Bu farw ei fam ar Ebrill 10fed ar ôl cystudd hir a blin – yng nghartref ei chwaer yn Llundain.

Bydd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yng nghapel Peniel, Deganwy ar Fai 6ed am 1.45 ac yna yn Amlosgfa Llanelwy.

Diolch i Dr. Pat Williams a Dr. John Williams am y ddarpariaeth o oedfa'r Sul ar *zoom* i'r aelodau sy'n gaeth i'n cartrefi. Gwerthfawrogir hyn yn fawr gan gan y gwrandawyr.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Wedi ail ddechrau cyfarfod â'n gilydd teimlwn ein bod yn 'Gymdeithas' unwaith eto, gyda'n golwg ar symud ymlaen. Ar Ebrill 4ydd braf oedd croesawu siaradwr gwadd am y tro cyntaf; sef Mr Mike Farnworth, Allerton, Lerpwl. Ganwyd Mike i deulu gyda chysylltiadau Cymraeg, ac roedd yn ymwybodol o'i etifeddiaeth, ond ni ddechreuodd ddysgu'r iaith nes i'w ferch symud i Aberystwyth a dysgu'r iaith. O'r cyntaf roedd yn ddysgwr brwdfrydig a thrwyadl. Teimlai ddyled enfawr i'r diweddar gyfaill Tom Thomas a'i ddosbarth yn West Kirby, ac wedi hynny i Mrs Iola Edwards, – athrawon ymroddedig a galluog. Sefydlodd *"The Liverpool Welsh Language Group"* i gefnogi dysgwyr fel ef ei hun, a bellach mae Mike yn rhan sefydlog a gweithgar ym mywyd Cymraeg Lerpwl.

Mae Mike yn aelod hefyd o Gymdeithas Ffynhonnau Cymru, a chawsom ganddo ddarlith ar y pwnc*"Paganiaeth dan yr wyneb"*. Tywysodd ni mewn Cymraeg rhwydd a chywir, drwy ganrifoedd o hanes ffynhonnau paganaidd a'u datblygiad a'u harwyddocad Cristnogol i bererinion ar eu ffordd i fannau sanctaidd fel Tyddewi ac Ynys Enlli.

Mae'n dda deall fod nifer fawr o'r ffynhonnau wedi cael eu hatgyweirio a'u glanhau yn y blynyddoedd diwethaf. Diolch i ddarlith Mike, gwyddom bellach lle i ymweld â hwy gyda mwy o wybodaeth am eu hanes yn ein meddiant.

Trist yw cofnodi am farwolaeth un fu'n rhan o fywyd Cymraeg Penbedw, ar hyd ei hoes, sef Mrs Megan Vaughan gweddw yr annwyl Irwedd, mam Glyn, Sian ac Olwen, teulu blaenllaw yn ein capeli a'n Cymdeithasau am flynyddoedd. Daw coffâd iddi yn y rhifyn hwn o'r *Angor*.

Anfonwn ein dymuniad da i Mr. Gwyn Jones wedi ei driniaeth ar ei galon yn Ysbyty Broadgreen. Da yw clywed ei fod yn gwella a braf fydd ei weld ef yn ôl gyda ni fel cymdeithas.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl - adroddiad gan Eryl Dooling

**MAE YN FY MEDDIANT** – Agorwyd y cyfarfod trwy roddi braslun o gefndir y cyfrannwyr gan Lywydd y noson Mrs Mair Roberts. Roedd y pedwar wedi dod a mwy nag un peth i ddangos.

Fe ddaeth Mrs Hilda Thomas a llun o'i chartref Cefn Trefor Isa ac eitemau oddi yno. Cannwyll – yn ei hatgoffa o ogla arbennig cannwyll a'r ffaith na chawsant drydan tan y 50 degau cynnar. Llyfr Mawr Y Plant a'i storiau. Llythyr gan ei thaid at ei nain i gyhoeddi ei geni – dim llawer o newyddion medda fo ar ôl gwneud hynny! Ffon arbennig gyda carn copr a hanes Horatio Nelson a'i long HMS Foudroyant wedi ei gerfio i mewn iddo. Llongddrychiad yn Blackpool yn 1897 oedd tynged y llong a gwnaethpwyd y y ffon allan o'i gweddillion.

Fe ddaeth Mrs Nan Hughes Parry a hen Feibl gafodd ei gŵr Dafydd yn anrheg, sôn am ddwy chwaer Elizabeth a Alouette Isambard Owen. Yn ystod yr ail ryfel fe gawsant eu rhoi mewn "concentration camp" ond ar ôl i'r rhyfel orffen fe ddychwelasant i Cae Ffynnon, Talsarnau. Roedd eu tad Sir Hubert Isambard Owen yn ddyn amlwg yn ei ddydd ac yn flaenllaw yn y gwaith o greu Prifysgol Cymru. Llun o'r Lôn Goed ac atgofion am gerdded arni yn yr haf gyda ffrindiau. Fe ddarllenodd *Eifionydd* gan R.W. Parry hefyd. Fe soniodd hefyd am gist, a gafodd yn bresant priodas, wedi ei gwneud o bren camphor gyda patrymau cymleth arni, ond roedd yn rhy fawr i'w chludo i'r capel.

Ornament i ddal sbils oedd ar y pentan yn nhŷ ei nain yn Deiniolen oedd un o'r pethau ddaeth Mrs Eryl Chitty. Hefyd mewn cas lledr roedd sbectol o arian gyda lens tywyll symudol – "carriage glasses" – i safio'r llygaid oddiwrth llwch neu wreichion. Fe ddaeth o siop William Smith a'i frawd, York St, Ceylon (yr adeg hynny). Draenog pren o Rwsia a brynodd pan oedd ar ei gwyliau yno. Roedd yna bump ohonynt yn ffitio i mewn i'w gilydd (fel dol Babushka) ashtray oeddynt.

Roedd gan Mr Rod Owen nifer o bethau. Llyfr yn dathlu penblwydd dinas Lerpwl yn 700 mlwydd oed ar ôl cael siarter yn 1207. Miwsig a rhestr o gorau – yn cynnwys LWCU ac enw Harry Evans ymysg eraill ar y pwyllgor cerdd. Pamffled ar y Fuddugoliaeth, oedfa yn yr Eglwys Gadeiriol ar Awst 19, 1945. Rhestr o bobol oedd yn byw yn y Bala yn 1946, Rod yn nabod y rhan fwyaf ohonynt, bron neb ar ôl rwan. Copi o'r *Echo* Mai 1976 yn deud nad yw "Princess Road Chapel is no longer a place of worship". Rhaglen o "Festival of Britain" 1951. Y ddau beth fyddai yn alw yn drysorau fyddai llyfr emynau ac ynddo lun y frenhines Elisabeth a neges Nadolig 1952. Rod yn ffan o H.R.H. Hefyd 10 Ionawr 1971 cofnodi adnod gyntaf Gwenan "Dewch blant bychain, dewch i foli'r Iesu, Cariad yw, Cariad yw". Noson ddiddorol dros ben.

**Cyfarfod Cyffredinol y Clwb Cymraeg** – Croesawyd ni gan y llywydd Dr John Williams. Penderfynwyd fod y cyfarfodydd eleni i'w cynnal yn wythnosol gan ddechrau ar Medi 13 am 7.30 ac i'w cynnal yn y ganolfan. Fe gafwyd cynnig efallai y byddai yn syniad i gael cyfarfodydd y gaeaf – Ionawr/Chwefror yn y pnawn. Cynigwyd rhestr o siaradwyr, hwyrach os nad ydynt eisiau trafeilio yma y buaswn ni fod yn y ganolfan a hwythau ar *Zoom*.

**Rhaglen yr Haf –** Mi fydd cinio yn Clwb Golf Woolton am 7.30 Mehefin 21ain i gydnabod y gwaith ardderchog mae Rod a Norma wedi ei wneud i'r Clwb Cymraeg am dros 40 o flynyddoedd.

Mehefin 28ain yng ardd Maeshir fe fydd te parti i ddathlu penblwydd arbennig Mr Eryl Wynne Jones.

Gorffennaf 13eg fe fydd Te Mefus yng ardd Dr John a Beryl Williams

Adroddiad ariannol gan Mr Alun Davies. Mae £1695.60 yn y cyllid ac fe fydd tâl aelodaeth eleni yn aros yn £20.

Y swyddogion am y flwyddyn ganlynol. Llywydd: Dr John Williams, Is-lywyddion: Mrs Nan Hughes Parry, Dr Pat Williams a Mr Brian Thomas. Ysgrifennydd: Mrs Beryl Williams. Trysorydd: Mr Alun Davies.

Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cael ei gynnal yn y ganolfan ar 10 Mai am 7.30 i drefnu y rhaglen am y tymor nesaf. Croeso i bawb.



***Noson ddiddorol – "Mae yn fy meddiant"***

*YSGRIF GOFFA*

# MEGAN VAUGHAN

## CILGWRI

*(1926 - 2022)*

**A ninnau'n paratoi i ddathlu penblwydd ein Cymdeithas, yn drigain oed tristwch eto yw colli un arall a fu'n aelod o'r cychwyn. Bu farw ein annwyl ffrind Megan Vaughan ar 21 Mawrth yn ysbyty Arrowe Park Bu'r arwyl yng nghapel Seion ar 11 Ebrill, yng ngofal y Parch Robert Parry. Cafwyd gwasanaeth dwy ieithog yng nghwmni ei hanwyliad, cyfeillion ac aelodau Seion, a'r Gymdeithas Gymraeg.**

**Ganwyd Megan i Robert Roberts, gŵr oedd yn enedigol o Dalysarn, a Mary o Flaenau Ffestiniog, a hynny ym Mhenbedw yn 1926, yn chwaer i May a Trefor. O'r dechrau roedd byd cartref Megan a'i theulu, yn hollol Gymraeg ac ynghlwm yn niwylliant ein gwlad, yn y capel, yr Aelwyd a'r Cymdeithasau amrywiol.**

**Er i gwmwl yr Ail Ryfel Byd amharu ar blentyndod delfrydol, llwyddodd Megan a Trefor i gael ysbeidiau o hwyl, Soniodd y ddau am eu profiadau o'r "blitz" ar Lannau Mersi — mentro allan i Mersey Park i hel "shrapnel' a gwylio'r ack ack yn saethu'r Luftwaffe dros yr afon.**

**Ar ddiwedd y rhyfel, dechreuodd Megan weithio fel 'comptometer operator' i gwmni siwgr Billingtons yn Lerpwl. Cafodd yrfa lwyddianus yno, mwynhaodd y gwaith a'r ffrindiau. Enillodd glod y cwmni.**

**Yn y cyfamser, a thrwy'r cysylltiadau Cymraeg, cyfarfu ag Irwedd Vaughan, brodor o Lanfairtalhaearn a Chymro i'r carn. Priodwyd hwy yng Nghapel Parkfield Road yn 1950. Ymaelododd y ddau yng nghapel Bedyddwyr yr Woodlands ac o hynny ymlaen, ymaflyd â'r holl weithgareddau Cymraeg Penbedw a'r Glannau.**

**Wedi i gapel Woodlands y Bedyddwyr gau, bu'r ddau yr un mor ffyddlon i gapel Noddfa a Salem a ddaeth i'w adnabod fel Seion.**

**Ganwyd Sian yn 1952, a'r efeilliad Olwen a Glyn yn 1955. Yn ei deyrnged i'w fam soniodd Glyn am blentyndod hynod o hapus a sefydlog mewn cartref, a gardd, lle oedd croeso i holl blant yr ardal a Megan yn creu chwareuon ac adloniant hwyliog a bywiog. Wedi i'r plant dyfu, dechreuodd Megan fel nyrs cynorthwyol yn ysbyty Clatterbridge, gyrfa eto a ddaeth a boddhad llwyr iddi, a chysur, pleser a hwyl i'r cleifion, *"Megan was always a smiling ray of sunshine,"* meddid.**

**Ym mhen amser daeth Megan yn nain i chwech o wyrion a wyresau, a dwy orwyres. Unwaith eto roedd Megan wrth ei bodd yn cael hwyl a chreu direidi gyda'r genhedlaeth ifanc.**

**Ar hyd ei hoes, glynodd Megan at werthoedd ei magwraeth, gan barhau yn ffyddlon i'r capel a'r gymdeithas mewn dosbarth Beiblaidd, cymdeithas y merched, parti drama, a pharti canu. Roedd yn barod ei chymnwynas yn y gegin, y bwrdd te, a stondin y bore goffi gyda gwên a chwerthiniad iach. Ac felly y cofiwn Megan, gwraig fywiog, prysur, hwyliog, gyda gwên ddiffuant, croeso gwresog a chalon haelionus annwyl.**

**Diolchwn am ei bywyd hir o hapusrwydd a llawenydd a diolchwn am gael ei hadnabod.**

**E.S.**

---

**Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi**

## Gŵyl i Gofio

### Emyr Wyn Jones a'i briod Enid Wyn Jones

**BU'N RHAID GOHIRIO HYD 5 A 6 TACHWEDD**



**Gweithiodd Dr Emyr Wyn Jones (1907-99) yn ysbytai Lerpwl ar hyd ei oes. Cardiolegydd enwog. Ei briod Enid Wyn Jones yn adnabyddus am ei gofal Cymdeithasol am yr anghenus.**

**Estynnwyd wahoddiad i fab Dr Emyr a Mrs Enid Wyn Jones, yr Athro Gareth Wyn Jones, Bangor i ddarlithio, ac os yn bosibl, yr ŵyr yr Athro Richard Wyn Jones, Caerdydd.**

**Cynhelir CYNGERDD ar Nos Sadwrn Tachwedd 5 yn Eglwys Fethodistaidd Elm Hall Drive.**
**Arweinydd: Parch. Robert Parry.**
**Doniau lleol o blith Cymry Lerpwl.**
**Llywydd: Dr. John G. Williams**

**Bore Sul ym Medi – OEDFA I GOFIO'R DDAU ym Methel, Heathfield Road am 10.30 o'r gloch.**

*Cofiwch edrych am y manylion*

---

**CYMDEITHAS LENYDDOL BETHEL A DOSBARTHIADAU Y DYSGWYR**

**DARLITH AR ZOOM**

***Nos Lun, 16 Mai***

***DARLITH AR Y PENLLIFIWR - DAVID DAVIES (1818-90)***

y contractiwr rheilffyrdd a perchennog glöfeydd yn y Rhondda a'r dyngarwr, miliwnydd a osododd enw Llandinam ar fap Prydain.
Fe'i llysenwid yn "Top Sawyer" – y Penllifiwr.



Ef yw testun y ddarlith ar zoom gan yr Athro D. Ben Rees a'r Cadeirydd fydd y Parchg. Robert Parry

# EBENEZER RICHARD

## (1781-1837) TREGARON

Bu ardal Tregaron a'r cyffiniau yn hynod o ffodus pan symudodd Ebenezer Richard o Sir Benfro i Dregaron ar ei briodas gyda Mary Williams. Daeth i fyw i'w chartref cyn adeiladau Prospect House. Athro ydoedd yn y blynyddoedd cynnar fel ei dad Henry Richard (1730-1813). Bu ef yn athro cylchynnol a phregethwr am 60 mlynedd. A ganwyd ddau fab iddynt, Ebenezer a Thomas Richard (1783-1856). Cafodd ei frawd ei ordeinio yn Sasiwn Llangeitho yn Awst 1814, yn un o ddau o Sir Benfro. Daeth y ddau frawd i sylw Cymru gyfan ac yn arbennig Thomas Charles, Y Bala, sylfaenydd yr Ysgolion Sul yng Nghymru. Denodd Thomas Charles y ddau frawd i wasanaethu yr Ysgol Sul. Ebenezer yn Nyffryn Teifi a Thomas yn ardal Abergwaun a'i gartref enedigol Tre-fin.

Bu'r ddau ynghyd ag Ebenezer Morris yn gyfrwng i newid agwedd pobl at gynnal ysgol ar y Sul gan fod carfan dda am ddiogelu cadwraeth y Sabbath.

Credai pob un o'r rhain fod yr Ysgolion Sul yn bwysig fel cyfrwng i ddysgu plant i ddysgu darllen yn Gymraeg a hefyd i ddod i wybod mwy am y Beibl a'i gynnwys.

Yn y flwyddyn 1808 ag yntau yr adeg honno yn dysgu yn Aberteifi, sefydlodd Ebenezer Richard Sasiwn y Plant ym Mlaenannerch ar y Llungwyn. Dyma gymanfa plant gyntaf y Methodistaidd Calfinaidd. Daeth deuddeg o ysgolion Sul at ei gilydd. Rhoddid testun i bob Ysgol Sul ac yna caent eu holi arno.

Datblygodd Sasiwn Plant o dan arweiniad Ebenezer Richard yn Nhregaron. Treuliwyd diwrnod cyfan, tair oedfa a phob oedfa yn cymeryd tair awr o amser, ac felly, bore, pnawn a nos gwelid plant Tregaron a'r cyffiniau yn tyrru i Sasiwn y Plant. Cynhaliwyd y Sasiynau hyn yn yr awyr agored gan nad oedd y capeli a adeiladid yn ddigon mawr i'r plant a'r rhieni a ddeuai ynghyd. Bu'n gyfrwng i adeiladu mudiad yr Ysgolion Sul trwy Dde Cymru.

Roedd Ebenezer Richard yn bregethwr hynod o rymus fel ei frawd. Mae'n debyg bod mwy o alw am wasanaeth ei frawd nag ef, a meddai Thomas ar lais mwy peraidd. Neilltuwyd Ebenezer i'r weinidogaeth yn ordeiniad cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn Sassiwn Llandeilo Fawr yn 1811.

Gwnaeth wyrthiau yn ardal Tregaron. Gofalu am ganolfannau i'r Ysgolion Sul a chynllunio adeiladu capeli Soar y Mynydd. Rhoddodd o'i orau i gapel



*Ebenezer Richard*

Bwlchgwynt, a magodd deulu a fu'n weithgar ac yn fawr eu parch iddo. Bu farw ar 9 Mawrth 1839 a'i gladdu ym mynwent capel Bwlchgwynt.

Ffynhonell:
Gomer M. Roberts (golygydd), *Hanes Methodistiaid Calfinaidd Cymru*, Cyfrol 2 (Caernarfon, 1978) tt. 317-326, 340-344, 442 a 447.

# CORNEL Y TRYSORYDD



**Mehefin 2022**

| | |
|---|---|
| Mr Michael Patterson, Bangor | £12.00 |
| Athro Huw Rees, Boncath | £30.00 |
| Er cof am Walter Rees Jones, Penbedw | £25.00 |
| Mr a Mrs Roderick Owen, Lerpwl | £25.00 |
| Mrs Blodwen Roberts, Hunts Cross | £20.00 |
| Parch Tom Wright, Wrecsam | £11.00 |
| Mr E. W. Williams, Childwall | £15.00 |
| Mrs Mair Jones, Childwall | £20.00 |
| Mrs Betty Morris, Caer | £30.00 |
| Mrs Mary Roberts, Benllech | £10.00 |
| **Cyfanswm** | **£198.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Gorffennaf 2022** – erbyn bore Mercher, 1 Mehefin, 2022 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd y diwrnod hwnnw.
- **Rhifyn Awst/Medi 2022 –** erbyn bore Gwener, 1 Gorffennaf 2022, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.
- **Rhifyn Hydref 2022** erbyn bore Iau, 1 Medi 2022 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Cyfarfod Blynyddol pnawn Llun, 11 Gorffennaf am 1.30 o'r gloch yn y Ganolfan, Penny Lane**
- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/6/2022.**

*Cyflwyno*

# ISLWYN FFOWC ELIS (1924- 2004)

**gan Dr. Pat Williams**

Ganed Islwyn Ffowc Elis yn Wrecsam a'i fagu ar fferm yng Nglyn Ceiriog. Roedd awydd ysgrifennu ynddo o oedran ifanc iawn ond cydymffurfiodd ag uchelgais ei rieni o'i weld yn y weinidogaeth. Nid oedd yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo ar wahân am fod ei syniadau am genedlaetholdeb a gwrthwynebiad cydwybodol yn groes i feddylfryd y rhelyw o'i gyd-ddisgyblion. Ond daeth tro ar fyd pan aeth i Goleg Prifysgol Bangor a chyfarfod â phobl o'r un anian. Yn y coleg rhoddodd fwy o bwyslais ar lenydda a chanu nag ar waith academaidd ond cydnabu'r Brifysgol ei allu a'i ddawn yn ddiweddarach drwy roi D. Litt. iddo. Yn y cyfnod hwn daeth i sylw'r cyhoedd fel un o aelodau gwreiddiol Triawd y Coleg a ddarlledwyd ar y rhaglen radio Noson Lawen. Dyma'r adeg hefyd yr ymunodd â Phlaid Cymru, gan ddod yn olygydd *Y Ddraig Goch* maes o law a'i ddewis yn ymgeisydd am sedd Sir Drefaldwyn yn chwedegau'r ugeinfed ganrif. Ni enillodd, ond fe wnaeth ei ymdrechion fel swyddog cyhoeddusrwydd y blaid sicrhau buddugoliaeth i Gwynfor Evans yng Nghaerfyrddin yn 1966.

Ar ôl gadael y coleg aeth yn weinidog i Lanfair Caereinon ac wedyn i Niwbwrch yn Sir Fôn ond nid oedd yn hapus yn y weinidogaeth ac ymddiswyddodd i fod yn awdur llawrydd. Nid hawdd oedd ennill bywoliaeth drwy ysgrifennu llyfrau yn Gymraeg a bu rhaid iddo dderbyn swydd fel darlithydd yng Ngholeg Caerfyrddin, oedd yn ei amddifadu o amser i lenydda o ddifrif.

Dechreuasai ei yrfa fel llenor pan enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst yn 1952 gyda'i




***Islwyn Ffowc Elis***


gyfrol o ysgrifau *Cyn Oeri'r Gwaed*. Ers hynny mae wedi ei hargraffu naw o weithiau ac yn parhau i ddiddanu darllenwyr. Gwelir dylanwad O M Edwards ar rai o'r ysgrifau, a dylanwad T H Parry Williams ar rai eraill. Serch hynny, er gwaethaf llwyddiant *Cyn Oeri'r Gwaed*, cydnabu nad oedd yn hoff iawn o *genre* yr ysgrif a throdd at y nofel, gan gyhoeddi *Cysgod y Cryman* y flwyddyn ganlynol, cyfrol a ddyfarnwyd yn 1999 gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn llyfr y ganrif. Er bod nofelau Cymraeg ar gael ers cyfnod Daniel Owen, hon yw'r un a atynnodd nifer helaeth o ddarllenwyr newydd, am ei bod yn cyflwyno cymeriadau cyfoes credadwy ac yn adrodd stori ddifyr oedd yn dal eu sylw o'r tudalen cyntaf i'r olaf.


Yn 1955 cyhoeddodd ei ail nofel *Ffenestri tua'r Gwyll* ond ni chafodd dderbyniad mor wresog â *Chysgod y Cryman*, efallai am fod ymddygiad y prif gymeriad, yn ei salwch meddyliol, yn rhy anhygoel o anghredadwy. Adferodd ei boblogrwydd fel awdur gyda'i nofel nesaf, *Yn ôl i Leifior*, oedd yn ailgyflwyno cymeriadau adnabyddus *Cysgod y Cryman* ac yn rhoi diweddglo i'w hanes.

Nofel wyddonias yw *Wythnos yng Nghymru Fydd* sy'n cyflwyno dau ddarlun gwahanol o Gymru'r dyfodol: un delfrydol ohoni'n ffynnu o dan ei llywodraeth ei hun a'r llall yn ei dangos fel 'Gorllewin Lloegr' wedi colli ei hiaith a'i diwylliant. Gwelir estyniad o'r un agwedd at Gymru yn *Blas y Cynfyd* a'r nofel ddychanol *Tabyrddau'r Babongo*, y naill yn dangos mor bwysig yw mynd yn ôl at eich gwreiddiau a'r llall yn dangos anghymeradwyaeth yr awdur o reolaeth estron.

Gwelwyd arafu ar ei gynnyrch llenyddol am ryw saith mlynedd ar ôl 1961 am fod ei waith paratoi ar gyfer ei fyfyrwyr ddim yn gadael llawer o amser iddo ganolbwyntio ar ei waith creadigol ei hun ond dechreuodd lenydda eto yn 1968 a chyhoeddodd *Y Blaned Dirion* a'i dilyn gan ddwy nofel arall: *Y Gromlech yn yr Haidd* (1971) ac *Eira* (1972), yn ogystal â nifer helaeth o straeon byrion. Efallai nad yw'r rhain ddim mor adnabyddus â'i weithiau cynharach, ond does dim amheuaeth fod Islwyn Ffowc Elis yn llenor o fri ac yng ngeiriau Meic Stephens, golygydd *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, y gymwynas fwyaf a wnaeth i lenyddiaeth Cymru oedd 'llusgo'r nofel Gymraeg i'r ugeinfed ganrif.'



# Portread o'm Mam, y ddiweddar ELINOR PARRY, 1944-2022

Ar gais caredig ein golygydd, Dr Ben Rees - a 'dydy hi ddim yn hawdd ymryddhau o'i berswâd – dyma lunio coffâd bychan i'm hannwyl fam, a fu farw ar Sul y Blodau, yn 77 mlwydd oed, yn dilyn cystudd blin. Ganwyd Elinor yn y Rhyl yn unig chwaer i Nerys, a ddaeth yn actores enwog yn y saithdegau yn dilyn ei hymddangosiad ar y gyfres gomedi *Liver Birds* a *District Nurse* yn ddiweddarach. Roedd y ddwy yn blant i Annie Myfanwy oedd yn enedigol o Drefriw, Dyffryn Conwy a Ted Kerfoot Hughes oedd â'i wreiddiau yn Nhremeirchion a'r Rhyl. Dyn busnes oedd Taid, ac artist penigamp yn yr ychydig hamdden oedd ganddo. Bydd rhai, hwyrach, yn cofio'r siop nwyddau tŷ ag yr oedd o'n rhannol-berchennog arni, sef Kerfoot Hughes and Jones, Bodfor Street. Tra bod fy Nain yn gwasanaethu fel blaenor yng Nghapel Warren Road ger y *Marine Lake*, roedd ei phriod yn organydd hunan-ddysgedig yno. Byddai Mam yn sôn yn hiraethus am yr awyrgylch hyfryd oedd i'w gael yng nghapel ei mebyd ac am ddylanwad unigolion go arbennig arni yn ystod ei phlentyndod.

Wedi cyfnod yn *Convent School* ei thref enedigol, fe aeth Elinor ymlaen i Ysgol Breswyl Hafodunos, Llangernyw. O'i chyfaddefiad ei hun, 'doedd hi ddim mor hapus yno ag y byddai wedi dymuno. Dyma'r cyfnod y collodd afael ar ei Chymraeg, gan fod yr addysg i gyd yn Saesneg (fel yr oedd bryd hynny) a chan bod disgwyl i bawb fynychu'r eglwys, ac nid y capel, bob Sul. Diolch i'r Drefn, fe ail-ddysgodd Gymraeg pan y'm ganwyd i, ei chyntaf-anedig ym 1969. Cyn hynny, ac wedi cyfarfod â 'Nhad, roedd hi'n haws gan Mam ddilyn pregeth yn Saesneg, ac o'r herwydd, mi ges i'm bedyddio yn yr *English Congregational Chapel* yn Water Street, Y Rhyl, a hynny gan y diweddar Barchedig Emlyn James, o barchus goffadwriaeth. Heblaw am y cyfnod byr a dreuliodd yn Llundain, fe fu Elinor yn astudio yng Ngholeg Underwoods yng Nghaer cyn cael swydd fel clerc yng ngwersyll y Fyddin (*Kinmel Camp*) ym Modelwyddan. Ar ei siwrne ddyddiol yn y car y cyfarfu â Dad ar fin y ffordd y tu allan i fferm y teulu, y Fachell, Morfa Rhuddlan. Priodwyd y ddau yng Nghapel Warren Road ar Fai 4ydd, 1968 gan un arall o'r hen ffefrynnau, y diweddar Barchedig Emyr Roberts.



***Elinor Parry***

Gwraig ffarm fu Mam gydol ei bywyd, gan fod yn gefn eithriadol i'w phriod, Roland; fel mam ofalgar a thyner y byddwn ni, blant, yn ei chofio. 'Doedd dim yn ormod o gymwynas ganddi. Cymerai fantais o gynnyrch y tir a'r cloddiau yn ei gofal amdanom ni, gan letya gweinidogion yn ei thro, a sicrhau eu bod yn cael eu gweddill a'u gwala cyn pregethu yn ein chwaer eglwys yn Rhuddlan yn yr hwyr. Gyda bod fy mryd ar fynd i'r Weinidogaeth, fe fyddai'n fy siarsio o'r dechrau un i wisgo'n drwsiadus yn y pulpud. 'Ddywedodd hi ddim mo'r peth ar lafar, ond rhyw fath o *"Cofia pwy rwyt ti'n ei gynrychioli"* oedd hynny. Fe fyddaf yn fy nyled byth iddi am y gefnogaeth gefais ganddi yn ystod blynyddoedd coleg, wrth fwrw i'r dwfn pan ddechreuais weinidogaethu i Gymry Birmingham a'r cyffiniau ym 1996, wrth gychwyn yn Wrecsam ac wrth afael yn y gwaith ar y Glannau. Os mai un mam y mae pawb yn ei gael, fe alla' i ddweud am y ddihareb honno, *"Cledd â min yw colli mam"* ei bod yn wir bob gair. Mae'r golled yn anfesuradwy, ond mae'r atgofion yn rhai gwirioneddol hyfryd. Gorffwysed mewn hedd.

# SHIRLEY HUGHES 1927 - 2022

Ychydig wythnosau yn ôl, yn 94 oed, bu farw Shirley Hughes, awdur toreithiog llyfrau Saesneg i blant a darlunydd o fri. Daeth i sylw byd-eang am ei gwaith, ac ar ei marwolaeth cafodd dudalen gyfan o deyrnged ym mhapur newydd y "Times", sydd yn sicr yn arwydd o'i henwogrwydd! Pam sôn amdani yn *Y Bedol* medde chi. Wel roedd ei thaid, James yn fab i John Hughes a'i briod Gwen, fu'n ffermio ym Mhencraig Fawr, Betws G.G. o ddeutu 1860. Roedd ganddynt bump o blant, pedwar mab a merch, ac fe aeth James, yr ieuengaf i Lerpwl pan oedd yn ddeunaw oed i weithio i gwmni Morris a Jones, dosbarthwyr nwyddau groser. Yn 1881 priododd Anne Hughes, merch ifanc o Bencader, a sefydlodd y ddau siop ddillad a fu'n hynod lwyddiannus yn Walton. Cawsant bump o blant, tri mab a dwy ferch, ac wedi treulio ei brentisiaeth yn rhai o siopau mawr Llundain sefydlodd Thomas John, yr ieuengaf, siop T.J. Hughes, neu Siop T.J. fel y'i gelwid yn Lerpwl, ac a ddaeth yn enwog iawn o 1912 ymlaen. Roedd yn ŵr busnes craff a datblygodd y siop yn gyflym ond bu farw'n ifanc yn 43 oed gan adael gweddw a thair merch fach ac un o rheiny oedd Shirley a anwyd yn 1927. Yn ferch ifanc roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn arlunio ac yn dilyn cyfnod yng ngholeg Ruskin yn Rhydychen datblygodd yn ddarlunydd nodedig cyn mentro i gyhoeddi ei llyfr cyntaf i blant yn 1980 ac o hynny ymlaen bu'n brysur iawn fel awdur a darlunydd, ac i gydnabod hynny cafodd O.B.E. yn 1999 a C.B.E. yn 2017. Daliodd ati i sgwennu a chyhoeddi gyda chymorth ei merch pan oedd yn ei naw degau.

Un ydoedd a'i gwreiddiau yng Ngogledd Cymru, ond tybed fu hi ym Metws G.G. rywdro?

**Glyn Davies**


CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan*
*Bwyllgor yr Angor,*
*Heathfield Road, Lerpwl 15.*


*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn,*
*Llanuwchllyn LL23 7UH*
*07729 960484*
*aerontynycefn@gmail.com*

# Heddychwyr Dyffryn Clwyd

***gan D. Ben Rees***

O ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd ein dyddiau ni y mae tref Dinbych, cartref Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2013, wedi chwarae rhan allweddol yn hanes heddychiaeth Gymraeg. Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif ceid lleygwr penderfynol o'r enw John Jones, Aeddren yn arwain tyrfa o lafurwyr a thyddynwyr Dyffryn Clwyd i Ddinbych i brotestio yn benodol am y trethi uchel, prinder ŷd, a milatereiddio sef yr ymgais i berswadio Sir Ddinbych i ddod o hyd i 75 o ddynion ar gyfer llynges Prydain yn ei rhyfelodd di-ddiwedd. Gorfododd John Jones a'i ddilynwyr yr Ustusiaid i gymrodeddu, a bu'n rhaid i'r Swyddfa Gartref osod y milwyr a anfonwyd i gadw trefn yn Rhuthin ac nid yn Ninbych. Credai yr ustusiaid o dan arweinyddiaeth John Lloyd, Hafodunos fod y tyddynwyr radical yn gweithredu o dan ddylanwad y Mudiad Methodistaidd. Gorfodwyd y diwinydd galluog y Parchedig Thomas Jones (1756-1820) i lunio pamffled o dan y teitl *Gair yn ei Amser* a gyhoeddwyd yn 1798 i amddiffyn y Calfiniaid Cymraeg. Yr oedd gagendor mawr rhwng John Jones a Thomas Jones. Syniadau y Chwyldro Ffrengig oedd yn ysgogi y tyddynwyr o dan arweiniad John Jones tra yr oedd Thomas Jones yn coleddu y Sefydliad, y Frenhiniaeth a syniadau Edmund Burke. Yr unig safbwynt oedd yn gyffredin i'r ddau wersyll oedd heddychiaeth. Onid Thomas Jones o Ddinbych oedd awdur y gerdd *'Achwyniad yn erbyn Rhyfel'* a gyhoeddodd yn 1794? Ceir llinellau cyngangeddol cofiadwy. I mi y llinell sy'n glynu yn y cof ydy *'O'r hafog a wna rhyfel'*. Yr oedd hynny'n wir yn 1794 fel y mae yn wir ym 2001.

Bu'n rhaid i Ddinbych aros i drydedd



Mathonwy Hughes



Thomas Gee

ddegawd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i glywed neges glir ddigamsyniol o blaid heddwch a gwleidyddiaeth ymosodol, werinol a gondemiai gaethwasiaeth a rhyfela. Gellir dyddio hyn i 1837. Dyna'r flwyddyn y symudodd William Rees (Gwilym Hiraethog: 1802-83) o Mostyn i ofalu am braidd capel y Sentars Lon Swan. Ef oedd arweinydd cell o Weinidogion yr Annibynwyr cymraeg, pob ond un yn gysylltiedig a thref Dinbych.Y tri a enwogodd Ddinbych oedd y rhain, Parchedig William Williams (Caledfryn 1803-68) oedd y cyntaf. Un o blant y dref. Cadwodd Ysgol am flynyddoedd yn y Capel Mawr. Bu'n amlwg ym mhob mudiad radicalaidd ac yn arbennig gyda Chymdeithas Heddwch. Y capten ar y criw bach oedd y Parchedig William Rees a ddaeth byn enw teuluol fel Gwilym Hiraethog. Haedda ef glod arbennig am ei arweiniad. Y trydydd oedd ei olynydd ym Mostyn y Parchedig Hugh Pugh (1803-68) Gofalai ef seiadu bob wythnos yn Ninbych.

Yr oedd cymaint yn gyffredin rhwng y tri hyn. Yn ddiwinyddol Calfiniaid union-gred oeddynt, a diwinyddiaeth John Calfin, Andrew Fuller ac Edward Williams oedd diwinyddiaeth pob un ohonynt. Yn Ninbych y cychwynodd Edward Williams (1750-1813) bregethu a datblygodd Galfiniaeth a fu'n llesol i'r Cymry. Pwysleisiodd werth yr unigolyn fel dinesydd cymdeithas wareiddiedig. Ni chafodd yr heddychwyr hi'n hawdd ond daeth ymwared eto o Ddinbych ym mherson y gwron Thomas Gee a'r papur wythnosol a gyhoeddwyd ganddo o 1857 ymlaen, sef *Baner ac Amserau Cymru*. Thomas Gee (1813-1898) a ofalodd am lwyfan i'r heddychwyr, y cenedlaeth-olwyr, y Rhyddfrydwyr. Creodd bapur hynod o lwyddiannus. Bu'r *Faner* yn glod i Wasg Gee ac ar hyd y blynyddoedd cafwyd llwyfan ardderchog i bob heddychwr. Yr oedd darllen *Y Faner* yn ystod golygyddiaeth Gwilym R. Jones a'r is-olygydd Mathonwy Hughes yn gordial calon. Bu yn ysbrydoliaeth heb ei fath.

Arwr mawr Gwilym R. Jones a Mathonwy Hughes, yr heddychwyr, oedd ei gweinidog yn y Capel Mawr (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), y Parchedig J. H. Griffith. Bu yno o1932 hyd 1964 a chlywodd dim un tref well cennad i Sosialaeth a Heddychiaeth. Gwyddai pawb yn Ninbych lle y safai. Gwyddai yntau fod y mwyafrif o'i braidd niferus yn anghytuno ag ef. Ni faliai. Safodd yn gadarn dros Efengyl y Cymod. Perthynai i Gymdeithas y Cymod, cymdeithas a gafodd gefnogaeth gan nifer dda o Ddyffryn Clwyd. Bardd a ddotiai ar J. H. Griffith oedd yr athrylithgar Thomas Gwynn Jones, Aberystwyth. Deuai yn gyson i Ddinbych. Preswylliai teulu ei briod yno. Ymwelai yn gyson hefyd gyda E. Stanton Roberts, ysgolfeistr Cyffylliog. Un arall o bobl y Cymod. Byddai y tri ohonynt yn aml yn seiadu ar bynciau'r dydd. Gwyddai'r tri fod Rhyfeloedd yr Ugeinfed ganrif wedi niweidio yr eglwysi a'r cymunedau Cymraeg. Ond daliodd y rhain i dystio. Erbyn yr Ail Ryfel Byd ceid eraill yn llenwi'r adwy. Un o'r rheiny, yn fy nyb i, oedd y Parchedig G. Aled Williams, y Rhyl. Un arall oedd y Parchedig Dafydd Owen, Dinbych, y bardd-bregethwr. A chofier i Ddyffryn Clwyd fagu heddychwyr glew. Daw dau frawd i'r cof y funud hon, y Parchedig J. P. Davies, Porthmadog a'r Parchedig Sam Davies, Lerpwl, dau o blant Clawddnewydd. Adrodai Aled Wlliams stori gofiadwy amdano ef a'r efengylydd o Gymdeithas y Cymod, y Parchedig T. H. Williams yn gofalu ar ôl Pabell y Gymdeithas yn eisteddfod Rhyngwladol Llangollen. Daeth gweinidog pwysig o un o gapeli saesneg bro'r Eisteddfod i' r babell, un o bobl y sefydliad. Wrth adael trodd at T. H. Williams, eiddil ei wedd a thangnefeddwr o'i ben i'w gorun, gan ddweud wrtho yn ddigon milain a sarrug: *'The trouble with you Williams is that you have a one track mind. It's peace, peace, peace all the time. Good day to you'*. Trodd T. H. ato gyda direidi y Saer o Nasareth yn ei lygaid: *'You're quite right, sir. Good day. Peace be with you'* a meddai Aled Williams, 'Yr hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwyd drachefn'

Bu Dyffryn Clwyd yn ffodus. Cawsant heddychwyr ymosodol fel Gwilym Hiraethog a J. H. Griffith a heddychwyr llednais fel Aled Williams a Arthur Tudno Williams. Mae angen y ddau fath arnom er mwyn cyfathrebu'n effeithiol. A daliwn i wneud hynny, fel y gwn yn dda ym mroydd Dyffryn Clwyd o blaid y gwerthoedd sydd i'w ganfod yn hanes a thystiolaeth cymdeithas y cymod.

# CYSTADLAETHAU I'R PLANT A'R IFANC A'R OEDOLION YN YR ANGOR

Teimla Golygydd ***yr Angor*** y dylem gynnal haf eleni gystadlaethau ar gyfer y to sy'n codi a'r oedolion sydd yn darllen yr Angor yn ewyllsgar.

## A. CYSTADLEUAETH Y PLANT (5 OED - 11 OED)

Anfoner lluniau a llythyron ac ysgrifau ar gyfer
Prif Weinidog Cymru (Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford yn egluro
**Gwaith Ysgol Bob Dydd a pham y dylai'r Senedd gefnogi'r ymdrechion a wneir yn 2022 gennych chwi a'ch athrawon.**
**Bwriedir i'r Prif Weinidog weld y cynnyrch a ddaw i'r brig.**

Anfoner y cyfan i 32 Garth Drive, Lerpwl/Liverpool, L18 6HW neu ebost
**garthdriveben@gmail.com** erbyn 1 Awst 2022 (pen blwydd y Golygydd) man bellaf.
Gwobr gwerth £25 i'r person a ddaw ar ben y rhestr,
£15 i'r ail ymdrech a £10 i'r trydydd gorau.
Gobeithir cyhoeddi detholiad o'r goreuon hyn yn *Yr Angor* cyn diwedd y flwyddyn
***Beirniad pob cystadleuaeth: Y Golygydd ag aelodau o Bwyllgor Gwaith yr Angor.***

## B. CYSTADLEUAETH YR ADOLESENT (12 OED - 17 OED)

Darn creadigol mewn barddoniaeth neu ryddiaith ar **Fy Arwr Heddiw**.
Dim mwy na 350 o eiriau.
Anfoner i'r un cyfeiriad a'r uchod.
Gwobrau: £25, £15 a £10 i'r gwaith a gyhoeddir.
Dylid anfon y cyfan i law'r Dr. D. B. Rees erbyn 1 Medi 2022,
ac fe gyhoeddir y tair ysgrif orau.

## C) CYSTADLEUAETH I'R OEDOLION DROS 18 OED

Ysgrif i'r Angor (ddim hwy na 700 o eiriau gyda llun o'r ysgrifwr) ar y testun
***Pam yr wyf yn hoffi darllen papur bro yn 2022.***
Anfoner i'r Golygydd (Parch. D. B. Rees yn Lerpwl) erbyn 1 Medi 2022.
Gwobrau: cyfystyr a £30, £20 a £10 i'r goreuon.
Cyhoeddir y tair ysgrif orau ym Medi / Hydref / Tachwedd 2022 yn *Yr Angor.*

# COFIO'R OES A FU

# YMRYSON AREDIG

Dyma olygfa oedd ar un adeg yn gyfarwydd iawnyng Nghymru ond erbyn hyn a neilltuwyd bron yn gyfangwbl i ymrysonfeydd aredig fel yr un a welir un y lluniau. Grisialodd y bardd J. Ceiriog Hughes deimladau gwŷr y bywyd gwledig yn ei fugeilgan ***Alun Mabon***:

*Rwy'n gorwedd efo'r hwyr,*
*Ac yn codi efo'r wawr,*
*I ddilyn yr og, ar ochr y Glôg,*
*A chanlyn yr arad goch*
*Ar ben y mynydd mawr.*

Ac yna dywed:

*Cyn boddio ar eich byd,*
*Pa grefftwyr bynnag foch,*
*Chwi ddylech ddod am dro*
*Rhwng cyrn yr arad goch;*
*A pheidiwch meddwl fod*
*Pob pleser a mwynhad*
*Yn aros byth heb ddod*
*I fryniau ucha'r wlad.*

Bu canu mawr arni ac yn wir deil cantorion i ganu ***Yr Arad Goch*** mewn cyngherddau ac ar lwyfannau eisteddfodau er ei bod yn perthyn i oes a aeth heibio.

Mae'r ceffylau gwedd cadarn wedi prinhau yn y wlad hefyd oherwydd fod y tractor wedi gwneud aredig yn grefft wahanol iawn i'r hyn a fu.

